O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 1447 (Cy. 254)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019

Gwnaed	*31 Hydref 2019*
Yn dod i rym	*7 Tachwedd 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd honno neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 7 Tachwedd 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted Vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Tachwedd 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwyso

10. (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 31 Hydref 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o

fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden hyd at ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r gefnffordd tua'r gorllewin hyd at ei ffordd ymuno â'r gefnffordd tua'r dwyrain.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r gefnffordd tua'r dwyrain hyd at ei ffordd ymuno â'r gefnffordd tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 2,700 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at ffordd ymuno Cyffordd Dwyrain Glynebwy.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr

hyd at bwynt 1,200 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 4

GWAHARDD BEICWYR

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Gorllewin Glynebwy ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Gorllewin Glynebwy ar y lonydd tua'r gorllewin hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.